**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 24ain Mai 2000**
**Agenda Eitem: 4**

## DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
## CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
## DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
## RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
## DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990

# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**Copiau ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio**

Pwyllgor Cynllunio
**24 Mai 2000**
**AGENDA EITEM. 5**

## ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

## DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliad Safle y gofynnir amdano gan y Pwyllgor Cynllunio.

### 2. DYDDIAD YR YMWELIAD SAFLE

**2.1** Mewn ymgynghoriad â Adran Gyfreithiol & Gweinyddol penderfynwyd mai **dydd Mercher 7 Mehefin 2000** sydd fwyaf addas. Trefnwyd y dyddiad yn amodol.

**2.2** Dywedir felly y cynhelir unrhyw ymweliad safle a drefnir heddiw ar **ddydd Mercher 7 Mehefin 2000** (amser i'w gadarnhau).

### 3. AELODAETH Y PANEL YMWELIAD SAFLE

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol a bydd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorwyr a hefyd :-

(4) Cynghorydd Annibynnol
(4) Cynghorydd Llafur
(2) Cynghorydd Plaid Cymru
(1) Cynghorydd Ceidwadol
(1) Aelod o'r Democratic Alliance of Wales
a hefyd yr Aelodau(au) Lleol perthnasol.

### 4. ARGYMHELLIAD

**4.1 Bod Aelodau yn cytuno cynnal ymweliad safle fore dydd Mercher 7 Mehefin, 2000.**

**AGENDA EITEM 6**

CEISIADAU A BENDERFYNWYD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU
CYNLLUNIO O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG
1AF EBRILL HYD 5ED MAI, 2000

COPIAU AR GAEL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO